Rhif: **WG25773**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **Gorffennaf 2015**

# Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru

**Cynulleidfa** Pob corff sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys cyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol; colegau addysg bellach; darparwyr dysgu seiliedig ar waith; sefydliadau addysg uwch; undebau llafur; Canolfan Byd Gwaith; Gyrfa Cymru a chyrff dyfarnu.

**Trosolwg** Yn yr adroddiad hwn ceir crynodeb o'r ymatebion a gafwyd o ganlyniad i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru *Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru* a gyhoeddwyd ar 22 Ionawr 2015. Caiff cynnwys yr adroddiad hwn ei ddefnyddio i lywio'r polisïau parhaus sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau yng Nghymru.

**Camau i'w cymryd** Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn dylai ymatebwyr ystyried y camau polisi a amlinellir yn y *Datganiad polisi ar sgiliau* (Llywodraeth Cymru, 2014).

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon i:
Cangen Polisi Ôl-16
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Tŷ'r Afon
Heol Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
e-bost: Post16policybranch@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

**Dogfennau cysylltiedig** *Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru* (2015)

*Datganiad polisi ar sgiliau* (2014)

© Hawlfraint y Goron 2015
WG25773 ISBN digidol 978 1 4734 3801 9

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Ymatebion i'r cwestiynau** | **6** |
| **Atodiad: Rhestr o ymatebwyr** | **17** |

# Cyflwyniad

## Cefndir

Lansiodd Llywodraeth Cymru'r ymgynghoriad *Cysoni'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru* ar 22 Ionawr 2015. Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio barn cyflogwyr, prentisiaid, darparwyr hyfforddiant a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â chynllunio a chyflenwi prentisiaethau er mwyn helpu i ffurfio a llywio dyfodol y rhaglen prentisiaethau yng Nghymru yn unol â'r uchelgais yn y Datganiad Polisi ar Sgiliau, a gyhoeddwyd yn 2014.

Diben yr adroddiad hwn yw cynnig crynodeb o'r ymatebion a gafwyd yn sgil yr ymgynghoriad ac amlygu unrhyw themâu allweddol sydd wedi ymddangos. Mae pob ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i ystyried wrth baratoi'r adroddiad cryno hwn a chaiff y cynnwys ei ddefnyddio i lywio datblygiad parhaus polisïau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen prentisiaethau yng Nghymru. A derbyn mai nod y ddogfen hon yw darparu trosolwg o'r ymatebion a gafwyd, ni fu'n bosibl cyflwyno'r holl safbwyntiau a fynegwyd drwy'r ymgynghoriad, ac nid yw'r crynodeb yn sefyll ar ei draed ei hun fel sampl cynrychioliadol o farn y cyhoedd.

## Y broses ymgynghori

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar-lein gyda thempled ymateb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i'r ymatebwyr gyflwyno eu barn drwy'r post yn ogystal ag ebost. Roedd fersiwn penodol o'r ymgynghoriad hefyd ar gael i bobl ifanc. Roedd yr ymgynghoriad ar agor am 13 wythnos a chaeodd ar 24 Ebrill 2015. Mynychodd swyddogion Llywodraeth Cymru saith gweithdy penodol a chyfarfodydd a drefnwyd gan randdeiliaid allweddol i gyflwyno manylion y ddogfen ymgynghori a chael mewnbwn pellach gan y cyrff penodol.

## Dadansoddi'r ymatebion a gafwyd


Cafwyd cyfanswm o 133 ymateb ffurfiol a 21 ymateb anffurfiol i'r ymgynghoriad. Mae'r ymatebion ffurfiol ac anffurfiol wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ystadegol isod ac wedi'u hystyried wrth lunio'r pwyntiau allweddol a amlygir yn yr adroddiad cryno hwn.

Derbyniwyd 163 o ymatebion i'r ymgynghoriad a ddarparwyd yn benodol i Bobl Ifanc. Er bod y cwestiynau yn ddogfen honno ychydig yn wahanol i'r rhai yn y ddogfen ymgynghori ffurfiol, roedd y meysydd a drafodwyd yr un fath yn fras. Mae'r ymatebion hyn hefyd wedi'u dadansoddi ac fe'u hadlewyrchir yn yr adroddiad hwn yn unol â'r ymateb ffurfiol perthnasol.


## Demograffeg

Nid oedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y disgrifiadau o fath, maint neu ddiwydiant gweithredu'r sefydliadau fel y'i darparwyd yn y templed ymateb. Yn yr achosion hynny ar y cyfan dewisodd yr ymatebwyr 'arall' gan ddarparu rhagor o wybodaeth am eu diwydiant gweithredu.

Cafwyd ymatebion ffurfiol o amrywiaeth eang o sefydliadau/diddordebau:




Roedd y nifer uchaf o ymatebion ffurfiol yn dod gan gyflogwyr. At ddiben dadansoddi rydym ni wedi'u rhannu'n sectorau gwahanol:




Yn y siart uchod mae 'arall' yn cynnwys ymatebion gan gyflogwyr yn y sectorau canlynol: Cyllid; Bwyd a Ffermio; Gwyddorau Bywyd; Manwerthu; y Sector Cyhoeddus a TGCh. Cafwyd un ymateb o bob un o'r sectorau hyn.

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd y ddogfen ymgynghori ffurfiol yn cynnwys 15 o gwestiynau ar draws amrywiaeth o feysydd yn ymwneud â chyflwyno prentisiaethau yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad i bobl ifanc yn cynnwys 7 cwestiwn oedd yn cysylltu'n fras â'r ymgynghoriad ffurfiol. At ddibenion y ddogfen hon, mae'r ymatebion hyn wedi'u cydweddu â'r cwestiwn ffurfiol â'r cyswllt agosaf.

Oherwydd arddull y cwestiynau yn yr ymgynghoriad, ac ehangder cyfatebol yr ymatebion a gafwyd, ni fu'n bosibl darparu dadansoddiad cwbl feintiol o'r safbwyntiau a fynegwyd. Yn lle hynny, aed ati i grynhoi'r amrywiaeth o ymatebion a gafwyd i bob cwestiwn.

## Cyfrannu at ddatblygu'r polisi

Cynhyrchodd yr ymgynghoriad nifer o ymatebion ac yn gryno roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn cefnogi rhaglen prentisiaethau newydd i Gymru. Roedd cefnogaeth helaeth ar gyfer datblygu Prentisiaethau Uwch, ond nid ar draul prentisiaethau Lefel 2; y teimlad oedd bod gan y rhain swyddogaeth hanfodol ar gyfer y sector cyfan.

Roedd llawer o'r ymatebion yn canolbwyntio ar yr angen i egluro'r rhaglen prentisiaethau'n well – i gyflogwyr, ysgolion a rhieni – er mwyn i bawb allu deall yn well y manteision a allai ddeillio o'r rhaglen prentisiaethau, ac er mwyn sicrhau paredd â chymwysterau academaidd.

Roedd rhai pryderon am gyllido - yn benodol pa lefelau a gaiff eu cyllido ac i bwy. Roedd galw am ddosbarthu'r cyllid yn fwy cyfartal, a'i ddyrannu ar sail 'cam nid oedran'.


Er bod ymatebwyr yn cytuno bod llawer y gellid ei ddysgu o raglenni oedd yn cael eu datblygu yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, roedd awydd cyson i weld rhaglen wedi'i chynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion cyflogwyr a phobl ifanc yng Nghymru; yn enwedig wrth ystyried y nifer o BBaChau a microfusnesau sydd yng Nghymru. Roedd neges glir hefyd na ddylid colli llais cyflogwyr llai wrth ddatblygu rhaglenni prentisiaethau.

Roedd pawb yn cytuno ei bod yn hanfodol fod gan yr holl brentisiaethau, beth bynnag y sector neu'r rhaglen, lefel dda a chyson o sgiliau hanfodol (Lefel 2). Fodd bynnag roedd ymatebwyr yn awyddus y dylid ailystyried y gofyniad ar i bob prentis ymgymryd â chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, gan annog defnydd o gymwysterau dirprwyol os oedd tystiolaeth glir fod gan brentis y lefel honno o sgil eisoes.

Yr hyn a ymddangosodd yn gryf drwy'r ymgynghoriad oedd pwysigrwydd perthynas waith agos rhwng y llywodraeth, cyflogwyr a darparwyr addysg (yn enwedig mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch) i sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu datblygu'n gyson, gyda lefelau sgiliau clir a chyfartal, a llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i ymgynghoriad y Bobl Ifanc yn cefnogi prentisiaethau ac yn teimlo eu bod yn cynnig cyfleoedd clir i bobl ifanc at y dyfodol. Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig fod rhaglenni prentisiaethau'n cael eu datblygu i fod yn gryf ac yn addas i gyflogwyr a dysgwyr ar draws Cymru.

**Ymatebion i ymgynghoriad y bobl ifanc:**




## Y camau nesaf

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i gynorthwyo gyda datblygu cynllun gweithredu ar gyfer model prentisiaeth newydd i Gymru a gaiff ei gyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

## Ymatebion i’r cwestiynau

Ceir crynodeb o’r ymatebion a gafwyd i’r cwestiynau a gyflwynwyd yn yr ymgynghoriad fel a ganlyn.

**C1: Sut mae mynd ati i gryfhau dilyniant prentisiaethau er mwyn darparu llwybrau clir at brentisiaethau uwch?**

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion o blaid gwella llwybrau at Brentisiaethau Uwch, gan deimlo y byddai modd gwella'r dilyniant hwn drwy well cysylltiadau â chyflogwyr, Cynghorau Sgiliau Sector a Chyrff Proffesiynol. Byddai hyn yn gymorth i ddatblygu'r rhaglenni, codi proffil prentisiaethau a sicrhau bod llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr.

Roedd cais am barhau â chymorth cyllidol gan y Llywodraeth ar gyfer pob lefel o brentisiaethau - i'w cynnig ar sail "cam nid oedran" er mwyn apelio at garfan ehangach.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen gwella'r manylebau ar gyfer Prentisiaethau Uwch, gan alw am symud y pwyslais o asesu i gaffael gwybodaeth - er nad oedd yr holl ymatebwyr yn cefnogi hyn. Mae angen i'r rhaglenni fod yn hyblyg i apelio at drawstoriad ehangach o gyflogwyr a dysgwyr.

Codwyd paredd parch â chymwysterau eraill - yn enwedig cymwysterau Safon Uwch a Phrifysgol. Roedd canfyddiad o ddiffyg cydnabyddiaeth a pharch gan ysgolion, prifysgolion a chyflogwyr i werth prentisiaethau.

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen cyfathrebu mwy effeithiol i godi proffil Prentisiaethau i helpu rhieni, dysgwyr a chyflogwyr i'w deall yn well.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y gair “prentisiaethau” yn gallu cael ei weld yn ddifrïol ar gyfer y lefelau uwch, gan deimlo y byddai defnyddio ffordd wahanol i ddisgrifio'r ddarpariaeth yn gallu bod yn werthfawr wrth hyrwyddo Lefelau 4, 5 ac uwch.

Serch hynny roedd rhai safbwyntiau cyferbyniol, a neges glir nad yw Prentisiaethau Uwch o bosibl yn briodol neu'n berthnasol i bob sector. Roedd hyn yn arbennig yn wir am rai o'r BBaChau, nad oedd yn teimlo y gallen nhw gynnig y cyfleoedd cyflogaeth y byddai eu hangen ar Brentisiaethau Uwch. Galwyd ar Lywodraeth Cymru i nodi'n glir y sectorau lle'r oedd Prentisiaethau Uwch yn briodol a chanolbwyntio'r ddarpariaeth ar y sectorau hynny yn hytrach na chael agwedd genedlaethol.

**C2: Pa fodelau cyflenwi fyddai’n cynorthwyo i ehangu prentisiaethau uwch, yn enwedig mewn galwedigaethau technegol?**

Roedd cefnogaeth helaeth i ehangu'r Prentisiaethau Uwch.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai cyflwyno cyd-gymwysterau, gyda Phrentisiaethau Uwch yn cynnwys naill ai cymwysterau a gydnabyddid gan

ddiwydiant neu gymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) cyfredol yn eu rhaglenni yn codi eu henw da a'u perthnasedd.
Roedd cefnogaeth i fodel rhannu dysgu, lle byddai prentis yn gallu cael profiad gyda chyflogwr gwahanol neu mewn coleg pan na fyddai modd diwallu ei anghenion dysgu yn y gweithle arferol.

Hefyd roedd galw i ystyried amrywiaeth o arbenigeddau o fewn sectorau penodol.

Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng cyflogwyr yn cynorthwyo datblygiad y rhaglenni y mae angen i gyflogwyr eu harwain.

Gwelwyd bod llwybrau pontio a dilyniant clir rhwng lefelau'n bwysig, gan gynnwys, yn fwyaf sylweddol, cynnydd yn y cyfleoedd ar Lefel 4 i helpu i bontio o Lefel 3 i Lefel 5. Roedd ymatebwyr hefyd yn dymuno i'r Prentisiaethau Uwch fod yn hygyrch o Lefel 4 os oedd set sgiliau ymgeisydd eisoes yn amlwg ar Lefel 3.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'n werthfawr neilltuo mwy o amser, drwy Lefel 3, ar gyfer sgiliau astudio a pharatoi ar gyfer y lefelau uwch er mwyn helpu i baratoi dysgwyr ar gyfer y lefelau gwahanol o astudio oedd yn angenrheidiol ar Lefel 5 ac uwch.

Cafwyd ymatebion gwrthgyferbyniol ynglŷn â'r dull astudio ar gyfer Prentisiaethau Uwch. Roedd rhai'n teimlo y byddai'n fuddiol canolbwyntio'n bennaf ar gaffael gwybodaeth – yn debycach i Raddau Prifysgol. Fodd bynnag roedd y mwyafrif llethol yn teimlo mai hyfforddiant mewn swydd oedd mantais benodol prentisiaethau ac y dylid cadw hynny ar y lefelau uwch.

Roedd llawer o ymatebwyr yn pwysleisio bod angen i Brentisiaethau Uwch fod yn berthnasol i ddiwydiant, ond hefyd bod iddynt baredd â chymwysterau Prifysgol. Yn ogystal, roedd angen cynyddu gwaith partneriaeth rhwng SAUau, Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) a darparwyr Dysgu'n Seiliedig ar Waith, er mwyn sicrhau bod y bwlch rhwng cymwysterau galwedigaethol ac academaidd yn cael ei bontio.

**C3: Ai'r cynnig i ddechrau rhaglenni cwblhau prentisiaethau ar Lefel 3 yw'r ffordd orau i gyflawni'r amcanion canlynol: codi lefelau sgiliau'r gweithlu; darparu llwybrau addysg ymarferol ar wahân i brifysgol; a gwella'r budd economaidd yn sgil buddsoddi arian y llywodraeth mewn prentisiaethau?**

Roedd rhaniad amlwg yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd llawer yn teimlo mai Lefel 3 oedd y lefel isaf oedd ei angen i sicrhau bod prentisiaethau'n hyfyw ac yn werthfawr; ac y byddai dechrau cwblhau rhaglenni ar Lefel 3 yn cael effaith gadarnhaol ar y sector ac yn cynyddu cydnabyddiaeth a pherthnasedd.

Ar y llaw arall, roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai cael gwared â phrentisiaethau Lefel 2 yn cael effaith niweidiol, gan atal nifer o bobl ifanc rhag

manteisio ar brentisiaethau. Roedd angen rhywfaint o gydnabyddiaeth mai Lefel 2 oedd y lefel briodol i ddysgu rhai dysgwyr.

Roedd cefnogaeth ar gyfer cadw prentisiaethau Lefel 2 fel lefel ‘sylfaen’, gyda chydnabyddiaeth glir bod Lefel 2 yn aml yn darparu’r elfennau sylfaenol.


Roedd cytundeb unfrydol bron y byddai uno rhaglenni Lefel 2 a Lefel 3 yn niweidiol. Gallai beryglu enw da prentisiaethau Lefel 3, ond hefyd byddai’n golygu bod y rhaglen yn rhy hir a gallai hyn fod yn rhwystr i gyflogwyr a dysgwyr.

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen brandio’r rhaglenni prentisiaethau’n effeithiol i sicrhau eu bod yn cael eu marchnata’n briodol ar y lefelau cywir.

Yn gyffredinol pwysleisiwyd na fyddai agwedd ‘un ateb i bawb’ yn briodol ar gyfer y rhaglen prentisiaethau.

Roedd y mwyafrif o’r ymatebwyr i ymgynghoriad y bobl ifanc o blaid canoli prentisiaethau ar Lefel 3.

**Ymatebion i ymgynghoriad y bobl ifanc:**




**C4: Sut byddai modd cyflenwi darpariaeth Lefel 2 y tu allan i’r model prentisiaethau?**

Roedd ymatebwyr yn teimlo y gellid ymgorffori darpariaeth Lefel 2 o fewn y ddarpariaeth gyfredol drwy ysgolion neu SABau – yn gysylltiedig â TGAU – fel rhan o raglen cyn-brentisiaeth. Fodd bynnag pwysleisiwyd y byddai angen cadw’r elfen alwedigaethol yn y gwaith a pheidio â chanolbwyntio ar yr elfennau academaidd yn unig.

Roedd cefnogaeth ar gyfer cwtogi darpariaeth Lefel 2 drwy leihau rhai elfennau i alluogi myfyrwyr i symud drwyddo’n gyflymach - gan ymgorffori mwy o gyfleoedd dysgu ar-lein.

Awgrymodd rhai ymatebwyr symud cyllid Hyfforddeiaethau o'r ddarpariaeth Lefel 1 bresennol i Lefel 2, ond roedd pryder y gellid gweld hyn fel symudiad oedd yn dibrisio prentisiaethau mewn rhyw ffordd.

Roedd cefnogaeth hefyd i sefydlu rhaglen newydd o ddysgu o gwmpas Lefel 2 fel ffordd i mewn i brentisiaethau, ond roedd pryder y gallai hyn beri dryswch i ddysgwyr a chyflogwyr.

Serch hynny, roedd y mwyafrif sylweddol o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu tynnu darpariaeth Lefel 2 o'r rhaglen prentisiaethau gan deimlo y byddai'n arwain at fwlch sgiliau sylweddol i ddysgwyr. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo'n gryf bod prentisiaethau Lefel 2 yn cyflwyno set benodol o sgiliau. Cafwyd awgrym gan rai ymatebwyr y gellid cadw prentisiaethau Lefel 2 ar gyfer sectorau penodol yn unig.

**C5: I helpu i lywio ein hasesiad o effaith bosibl y cynigion hyn, a allwch chi ragweld unrhyw effaith benodol ar bobl â nodweddion gwarchodedig (yn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010) a sut y gallai'r cynigion hyn effeithio arnyn nhw'n benodol?**

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn teimlo na fyddai effaith ganfyddadwy ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

Roedd y mwyafrif o bryderon yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddileu darpariaeth Lefel 2. Gallai dileu'r lefel hon gael effaith niweidiol ar bobl ag anableddau dysgu, rhai ag anghenion llythrennedd a rhifedd, a rhai o gefndiroedd lleiafrifol (lle nad oedd y Saesneg neu'r Gymraeg yn iaith gyntaf). Teimlwyd na fyddai'r dysgwyr hynny o bosibl yn gallu gweithredu ar Lefel 3 ac uwch.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai dileu darpariaeth Lefel 2 gael effaith niweidiol ar fenywod a dysgwyr dros 25 oed.

Dywedwyd yr un peth am ddysgwyr iau oedd yn fwy tebygol o fod yn manteisio ar ddarpariaeth ar Lefel 2.

Roedd pryderon yn ymwneud â chyllid, ac effaith cwtogi cyllid i ddysgwyr dros 25 oed.

**C6: Beth fyddai effaith cyfyngu llefydd ar brentisiaethau wedi'u cyllido gan y llywodraeth i weithwyr mewn rolau swydd newydd?**

Roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn.

Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn yn llawn gan deimlo y dylai prentisiaethau yn eu ffurf fwyaf dilys fod ar gael i gyflogeion newydd mewn swyddi newydd yn unig.

Fodd bynnag, roedd pryder gan lawer o ymatebwyr am yr effaith ar gyflogeion cyfredol, a bod y cynnig yn mynd yn erbyn nod datganedig y rhaglen o wella sgiliau'r gweithlu yng Nghymru.


Roedd teimlad cryf na ddylid defnyddio prentisiaethau yn lle hyfforddiant i gyflogeion, ond y gallai cyfyngu darpariaeth arwain at system ddwy haen rhwng y rheini ar y rhaglen prentisiaethau a phobl mewn cyflogaeth tymor hir nad oedden nhw'n elwa ar gyfleoedd dysgu. Byddai angen buddsoddiad sylweddol mewn DPP ar gyfer cyflogeion cyfredol, ond roedd pryder a fyddai cyflogwyr yn fodlon buddsoddi yn yr hyfforddiant hwn. Roedd pryderon y gallai staff cyfredol adael eu swyddi er mwyn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi gyda chyflogwyr eraill.

Cwestiynodd ymatebwyr a fyddai digon o 'rolau newydd' i wneud y cynnig hwn yn hyfyw, ac y gallai cyfyngu'r rhaglen olygu y byddai ond ar gael i'r rheini rhwng 16 ac 18 oed yn unig. Yna arweiniodd hyn at yr ofn y byddai cyflogwyr yn petruso rhag cyflogi prentisiaid heb unrhyw wybodaeth neu brofiad blaenorol yn y sector.

Awgrymodd llawer o ymatebwyr y gellid cyflwyno trefniadau cyllido gwahanol gyda'r mwyafrif o'r buddsoddi yn mynd ar newydd-ddyfodiaid, ond gan gadw rhywfaint o'r cyllid ar gyfer cyflogeion cyfredol.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i ymgynghoriad y bobl ifanc yn cytuno y byddai ail-ganoli'r rhaglen prentisiaethau'n syniad da.

**Ymatebion i ymgynghoriad y bobl ifanc:**




**C7: Beth fyddai'r effaith ar gyflogwyr a phrentisiaid pe bai arlwy'r rhaglen prentisiaethau yn cael ei symud at brentisiaethau penodol i alwedigaethau?**

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig hwn.

Teimlwyd y byddai cael prentisiaethau penodol yn gwella perfformiad y rhaglen yn aruthrol ac yn diwallu anghenion cyflogwyr yn rhwyddach.

Roedd yr ymatebwyr yn pwysleisio bod angen sicrhau elfen o hyblygrwydd, a phwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl brentisiaid ddealltwriaeth o'r 'hanfodion' cyn symud ymlaen i arbenigo. Mae angen clir am lefel gadarn o gysondeb yn y sgiliau hyn – rôl ar gyfer rhaglen Lefel 2 o bosibl.


Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod yr arlwy gyfredol yn cael ei dibrisio gan brentisiaethau galwedigaethol mwy cyffredinol ac y gallai symud at brentisiaethau mwy penodol i alwedigaethau helpu i wyrdroi'r cysyniad bod prentisiaethau'n gwanhau.

Roedd ymatebwyr yn holi sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar BBaChau, na fyddai o bosibl mewn sefyllfa i gynnig rhaglen arbenigol o weithgaredd.

Teimlwyd yn gryf y byddai angen i'r rhaglenni gadw lefel o drosglwyddedd i sicrhau nad oedd prentisiaid yn cael eu cyfyngu i sail rhy gyfyngedig o gyflogadwyedd. Roedd pryder hefyd am gyfyngu darpariaeth yn ormodol i 'feysydd blaenoriaeth' a allai arwain at gyfyngu cyfleodd yn sylweddol i lawer.

Roedd tri chwarter o'r ymatebwyr i ymgynghoriad y bobl ifanc yn teimlo y byddai'n syniad da i Lywodraeth Cymru ystyried rôl prentisiaethau cyffredinol.

**Ymatebion i ymgynghoriad y bobl ifanc:**




**C8: Pa broblemau ydych chi wedi'u hwynebu mewn perthynas â chyflenwi cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru pan fydd gan brentisiaid gymwysterau ar lefelau cyffelyb neu uwch mewn pynciau tebyg yn barod?**

Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno bod meddu ar sgiliau llythrennedd, rhifedd a TG da yn hanfodol i bob prentis.

Roedd ymatebwyr yn teimlo ei bod yn cymryd llawer o amser i bob dysgwr ymgymryd â chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, a bod dysgwyr yn digalonni ac


yn colli eu cymhelliad drwy orfod ymgymryd â hyfforddiant nad oeddent yn ei ystyried yn berthnasol.

Galwodd ymatebwyr naill ai am gymal eithrio lle bo angen, neu ryw fodd o drosglwyddo cymwysterau, fel na fyddai'n rhaid i brentisiaid sy'n meddu ar gymwysterau cydnabyddedig yn y meysydd hyn sefyll cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru.

Cydnabuwyd y byddai angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol ar rai prentisiaid yn y maes hwn felly cynigiwyd peidio â thynnu'r elfen hon yn ôl yn llwyr, ond cynnwys rhai meini prawf eithrio ar sail tystiolaeth y gellid eu cydnabod.

Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr i ymgynghoriad y bobl ifanc yn teimlo ei bod yn bwysig i'r llywodraeth ystyried rôl Sgiliau Hanfodol Cymru wrth ddatblygu'r rhaglenni prentisiaethau newydd.

**Ymatebion i ymgynghoriad y bobl ifanc:**




**C9: Ydych chi'n meddwl y dylid derbyn cymwysterau dirprwyol ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru yn y fframweithiau prentisiaeth?**

Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn gan y mwyafrif o'r ymatebwyr.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai angen ystyriaeth ofalus ac arweiniad clir iawn i sicrhau bod yr holl ddarparwyr yn deall pa lefel o gymwysterau y gellid eu defnyddio fel cymhwyster dirprwyol ac unrhyw gyfyngiadau ar eu defnydd.

Roedd ymatebwyr yn glir bod pwysigrwydd sicrhau bod yr holl brentisiaid yn meddu ar lefel dda o wybodaeth a dealltwriaeth o sgiliau sylfaenol (Lefel 2) yn hanfodol ac mai dim ond os oedd tystiolaeth glir o'r lefel honno o sgiliau ar gael y dylid defnyddio cymwysterau dirprwyol.

**C10: Pa gymwysterau ydych chi'n meddwl y byddai'n rhesymol i'w derbyn fel rhai dirprwyol ar gyfer cymwysterau penodol Sgiliau Hanfodol Cymru?**

Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn teimlo y dylai unrhyw gymhwyster o'r fath ar gyfer rhifedd, llythrennedd neu lythrennedd digidol ar Lefel 2 neu uwch fod yn dderbyniol fel cymhwyster dirprwyol.

Crybwyllwyd y cymwysterau canlynol yn benodol gan y mwyafrif o ymatebwyr:

- TGAU y CBAC (isafswm Gradd C) (cyfateb i Lefel 2);
- AS a Safon Uwch mewn Saesneg a Mathemateg (isafswm Gradd C)
- Bagloriaeth Cymru (Canolradd)
- Cymwysterau cyfatebol ar draws y DU (h.y. TGAU a Scottish Standards/Highers)

Roedd teimlad cryf y dylai unrhyw gymwysterau a gymeradwywyd fel rhai dirprwyol gael eu marcio a'u hachredu'n annibynnol.

**C11: Sut gall Llywodraeth Cymru annog cynnydd yn y galw am ddarpariaeth prentisiaethau cyfrwng Cymraeg?**

Roedd ymatebion gwrthgyferbyniol o ran y lefel o alw a fyddai ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Roedd llawer o ymatebwyr yn credu bod darpariaeth ddigonol o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg eisoes ar gael ond bod angen gwneud mwy i'w hyrwyddo'n ehangach.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na fyddai'r strwythur cyfredol yn cefnogi cynnydd o ran y galw; ond doedd eraill ddim yn ystyried bod galw digonol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu maes gwaith. Roedd eraill yn teimlo mai cyflogwyr a chyflogeion ddylai bennu'r galw yn hytrach na Llywodraeth Cymru.


Roedd rhywfaint o gefnogaeth i adolygiad llawn i asesu'r galw cyn bod unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei fuddsoddi.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru dargedu busnesau cyfrwng Cymraeg i'w hannog i gyflogi rhagor o brentisiaid; yn ogystal â thargedu ysgolion cyfrwng Cymraeg i hysbysebu'n well y ffaith fod prentisiaethau ar gael.

Hefyd cafwyd rhai cynigion ar gyfer gorfodi neu gyllido cymorth penodol ar gyfer darpariaeth. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid neilltuo cyllid i Gyrff Dyfarnu ddatblygu deunyddiau a hyfforddi aseswyr a fyddai'n galluogi mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd eraill yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr Dysgu'n Seiliedig ar Waith gynnig gwasanaeth dwyieithog.

Roedd yn agos i dri chwarter o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y bobl ifanc yn teimlo y dylid cael rhagor o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg.

**Ymatebion i ymgynghoriad y bobl ifanc:**




**C12: Beth sydd angen i Lywodraeth Cymru ei ystyried o ran cysondeb a chludadwyedd prentisiaethau rhwng systemau Cymru a Lloegr?**

Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr yn cytuno y byddai'n hanfodol i raglen prentisiaethau Cymru fod â pharedd ac yn gydnaws â'r trefniadau yn Lloegr. Roedd ymatebwyr yn wyliadwrus rhag dilyn model Lloegr yn rhy agos tra bo'r model hwnnw'n cael ei sefydlu, ac roedden nhw'n awyddus i sicrhau bod model i Gymru yn cael ei ddatblygu ar wahân.

Ystyrrid hyn yn arbennig o wir o ran y lefelau sgiliau, a chanlyniad y prawf terfynol - yr oedd teimlad y dylai gyd-fynd â model Lloegr er mwyn dangos cymhwysedd galwedigaethol.


Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylid cael set graidd o gymwyseddau ar draws y ddwy raglen i sicrhau paredd a galluogi prentisiaid o'r ddwy ochr i'r ffin i symud yn rhwydd ar ôl cymhwyso.

Roedd galw i sicrhau bod cyflogwyr yn gallu bod yn siŵr y byddai unrhyw brentis, boed wedi cymhwyso drwy fodel Cymru neu Loegr, yn meddu ar set gyfatebol o sgiliau.

Gofynnodd ymatebwyr hefyd ar i'r cynlluniau prentisiaethau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon gael eu hystyried; a chafwyd awgrymiadau am safon gydnabyddedig Genedlaethol (ar draws y DU) i sicrhau cysondeb (yn debyg i'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol).

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i ymgynghoriad y bobl ifanc yn cytuno y byddai'n syniad da i raglenni Cymru fabwysiadu rhai elfennau o'r rhaglenni oedd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU.

**Ymatebion i ymgynghoriad y bobl ifanc:**




**C13: Oes unrhyw agweddau o system ddiwygiedig Lloegr a fyddai'n gwella'r system prentisiaethau yng Nghymru?**

Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod rhai agweddau allweddol yn y system yn Lloegr yn rhai a allai gyfoethogi datblygiad prentisiaethau yng Nghymru.

Yr amlycaf o'r rhain oedd ymgysylltu â chyflogwyr, oedd wedi bod yn ffocws pwysig yn y model yn Lloegr. Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r agwedd hon yn fuddiol iawn i Gymru. Mynegwyd bod rhaid gofalu bod y Cynghorau Sgiliau Sector yn ymwneud â'r datblygiad er mwyn sicrhau nad oedd y rhaglenni'n cael eu dylanwadu'n ormodol gan gyflogwyr mwy o faint ar draul y BBaChau niferus yng Nghymru. Rhybuddiwyd yn erbyn rhoi gormod o bŵer a rheolaeth i gyflogwyr mawr.

Roedd anghytundeb a ddylid cyflwyno prawf terfynol i brentisiaid – fel sydd yn Lloegr. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi cael rhyw fath o asesiad graddedig yn ystod y rhaglen i sicrhau cysondeb, ond nid oedden nhw'n credu mai prawf terfynol oedd yn ffordd orau i gyflawni hyn o reidrwydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo ei bod yn bwysig cynllunio rhaglen gwbl annibynnol i Gymru.

Roedd llawer o gefnogaeth i ryw fath o feincnod ansawdd ar draws y ddwy raglen i sicrhau cysondeb a pharedd.

**C14: Pa fudd fyddai'n deillio o sefydlu paneli cyflogwyr i ymgymryd â rôl cynghori ar gynllunio ac ar gynnwys prentisiaethau a llywio'r galw'n flynyddol ar lefel sector?**

Roedd paneli cyflogwyr yn cael eu hystyried yn gynnig cadarnhaol gan bron pob un o'r ymatebwyr.

Dywedodd rhai ymatebwyr fod Paneli Cyflogwyr yn bodoli eisoes mewn rhai sectorau, a bod ysfa i sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu defnyddio lle bo'n bosibl er mwyn osgoi ailadrodd a dyblygu ymdrech.

Roedd ymatebwyr yn annog y defnydd o Gynghorau Sgiliau Sector a allai fod â fframweithiau tebyg yn weithredol eisoes.

Er mwyn i Baneli Cyflogwyr weithio, roedd llawer o ymatebwyr yn credu ei bod yn bwysig eu bod yn cynrychioli'r sector cyfan a chafwyd pwyslais cryf ar sicrhau bod BBaChau, microfusnesau a phersonél hunangyflogedig yn cael eu cynnwys ynghyd â chyflogwyr mwy o faint.

Awgrymwyd hefyd y byddai cynnwys Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach a darparwyr hyfforddiant eraill ar y paneli yn codi eu gwerth.

**C15: Sut gallai Cymwysterau Cymru gynorthwyo nod Llywodraeth Cymru i fod yn fwy ymatebol i anghenion y cyflogwyr a sicrhau bod cynnwys y prentisiaethau'n berthnasol i'r farchnad lafur i raddau helaeth?**

Roedd ymatebwyr yn teimlo bod Cymwysterau Cymru mewn sefyllfa dda i ddarparu cyngor arbenigol ar ddatblygu rhaglenni a chymwysterau Prentisiaethau. Byddai eu rôl yn cynnwys sicrhau nad oedd Rhaglenni Prentisiaethau'n cael eu datblygu ar wahân i raglenni a chymwysterau Addysgol eraill.

Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo y gallai Cymwysterau Cymru fod â swyddogaeth ddefnyddiol yn hwyluso amrywiaeth o rwydweithiau a phaneli, gan gynnwys Paneli Sector, Paneli Cyflogwyr ac ymgysylltu â darparwyr dysgu a chyrff dyfarnu.

Roedd rhywfaint o anghytuno a ddylai Cymwysterau Cymru fod yn Geidwad y Porth ac yn Awdurdod Dyroddi i brentisiaethau. Roedd llawer o ymatebwyr yn cefnogi'r syniad hwn gan deimlo mai'r corff hwn oedd yn y safle gorau i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Fodd bynnag roedd ymatebwyr eraill yn pryderu y byddai hyn yn golygu gwrthdaro buddiannau o fewn y corff.

Roedd ymatebwyr yn cytuno bod angen i'r corff gydweithio'n agos gyda chyflogwyr i ddatblygu cymwysterau ar gyfer Rhaglenni Prentisiaethau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion cyflogwyr yn gywir ac yn effeithiol.

## Atodiad: Rhestr o ymatebwyr

Ymatebwyr na nododd y dylid cadw eu cyfraniad i'r ymgynghoriad yn ôl:

Academi Sgiliau Cymru @ NCPT
Academi Sgiliau Hyfforddi Powys (Cyngor Sir Powys)
Agored Cymru
Airbus
Amberleigh Care Ltd
Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Anabledd Dysgu Cymru
Aspiration Training Ltd
B&ES - Building & Engineering Services Association
Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianneg (ECITB)
Canolfan Gofal Addysgu Parc Pendine
Canolfan Hyfforddi Network Rail
Capestone Organic Poultry Ltd
Carillion
CILEx
CITB
City & Guilds
Clybiau Plant Cymru Kids Club
CLlLC
Coleg Caerdydd a'r Fro
Coleg Cambria
Coleg Gwent
Coleg Penfro
Coleg Sir Gar ar ran Grŵp PC:DDS
Coleg y Cymoedd
Colegau Cymru
Compact Orbital Gears
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Conwy
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Ynys Môn
CYFLE
Cyflogwr Hyfforddi ISA
Cymdeithas Contractwyr Trydanol
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Cymdeithas Lletygarwch Prydain
Chwarae Teg
Darparwr hyfforddiant ISA
Dawnus Construction Holdings ltd

Diwydiant Cymru
DRAC Consulting
Drinks Wales
DVLA
Educ8 Ltd
ELLIOTS Hill Care Ltd
ESTYN
Ffederasiwn Cenedlaethol Trinwyr Gwallt
Ffederasiwn Cyrff Dyfarnu
Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
Ffederasiwn Sgiliau a Safonau'r Sector Diwydiant
Focus Training
FSB
Fforwm Gofal Cymru
Glyndwr Cymru
Grŵp Acorn
Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot
Grŵp Llandrillo Menai
Gwasanaethau Datblygu Addysg y Gweithlu
HORIZON NUCLEAR POWER
ICAEW
Improve Ltd
IQE plc
JGR Training
JTL
Lantra
LSKIP
Morlyn y Llanw
Mudiad Meithrin
NASUWT
NIACE
Nwy Prydain
OCR
Park House Court Ltd
Partneriaeth Awyr Agored
Partneriaeth Dysgu Ranbarthol y De Orllewin
Partneriaeth Sgiliau Galwedigaethol
Peoples 1st
Progression Training
Prifysgol Aberystwyth (PA)/Cyngor Sir Ceredigion (CC)
Prifysgol Caerdydd
Sefydliad Rheolaeth Siartredig
Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu – Cangen Canolbarth Cymru
Sefydliad y Diwydiant Moduro
Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru

Semta
SGD Security Group
Skills Active
Skillset Cymru Creadigol
Tata Steel
TSW Training Ltd
UCAC
UCMC
UCU Cymru
UKCES
Urdd Gobaith Cymru
Valero Energy Ltd
Wales and West Utilities
XR Training
Y Coleg, Merthyr Tudful
Y Cyngor Carafanau Cenedlaethol
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
Y Sefydliad Ffiseg a Pheirianneg mewn Meddygaeth (IPEM)
Y Sefydliad Yswiriant Siartredig
Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Gwrych